Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 29.11.2021

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# BREXIT: Gwiriwr Brexit

Mi fydd gwiriwr Brexit Llywodraeth y DU yn cau yfory (30 Tachwedd 2021). Cwblhewch y gwiriwr rŵan i gael rhestr bersonol o gamau gweithredu i'ch busnes, ewch i:

https://www.gov.uk/transition-check/questions

Mae gwybodaeth am newidiadau o ganlyniad i Brexit yn parhau i fod ar gael ar:

https://www.gov.uk/brexit.cy

# DIGWYDDIAD: Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru – Digwyddiad Ymgysylltu Cynnar â'r Farchnad 3 Rhagfyr 2021

Bydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn comisiynu'r gwaith o gyflawni prosiectau'r Cynllun Twf dros y blynyddoedd nesaf, ac yn cynnal Digwyddiad Ymgysylltu Cynnar â'r Farchnad ar Zoom ar 3 Rhagfyr 2021, o 10:00am-12:30pm. Bydd yna gyflwyniad i'r Cynllun Twf a thrafodaeth am y cyfleoedd fydd yn deillio ohono fo. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, ewch i:

https://bit.ly/3kfxvOE

# DIGWYDDIAD: Sadwrn y Busnesau Bach 4 Rhagfyr 2021

Bydd Sadwrn y Busnesau Bach 2021 yn digwydd ar 4 Rhagfyr 2021. Mae ystod o ddefnyddiau ar gael i'ch helpu chi i gymryd rhan, ewch i:

https://smallbusinesssaturdayuk.com

# DIGWYDDIAD: Digwyddiad 'Big Small Business Networking UK' FSB 15 Rhagfyr 2021

Cynhelir y digwyddiad, 'Big Small Business Networking UK', ar 15 Rhagfyr 2021, o 10:00am-11:30am, ac mae'n agored i fusnesau bach a chanolig o bob rhan o'r DU. Am fwy o wybodaeth am y digwyddiad am ddim yma, ewch i:

https://www.fsb.org.uk/event-calendar/big-small-business-networking-uk-15-december.html

# GWOBRAU: Enillwyr Gwynedd Gwobrwyon Go North Wales 2021

Llongyfarchiadau i Plas Tan-Yr-Allt, Tremadog; Graig Wen, Arthog; Gelli Gyffwrdd, Y Felinheli; Gwesty Plas Dinas, Bontnewydd a Michael Bewick o JW Greaves & Sons Ltd ar eu llwyddiant yng Ngwobrau Twristiaeth Go North Wales 2021 dydd Iau diwethaf. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://gonorthwalestourismawards.website/finalists-winners/

# CANLLAWIAU: Bil Cymwysterau Proffesiynol 2021: taflenni ffeithiau

Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi sawl taflen ffeithiau am y Bil Cymwysterau Proffesiynol, sy'n delio â chydnabod cymwysterau proffesiynol o wledydd eraill a rheoleiddio proffesiynau ledled y DU. Ewch i:

https://www.gov.uk/government/publications/professional-qualifications-bill-2021-factsheets

# GWOBRAU: Dathlu Gwobrau Busnesau Bach 2022 FSB ar agor ar gyfer ceisiadau

Mae ceisiadau ar gyfer Gwobrau Dathlu Busnesau Bach FSB 2022 bellach ar agor, a byddant yn cau ar 27 Chwefror 2022, ewch i:

https://www.fsbawards.co.uk/

# DIGWYDDIADAU: FSB

Mae gan FSB nifer o ddigwyddiadau ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf yn ymdrin ag ystod o bynciau gan gynnwys buddion aelodaeth FSB, arloesi eich busnes a hybu morâl staff, cynhyrchiant a gwerthiant. I ddarganfod mwy, ewch i:

https://www.fsb.org.uk/event-calendar.html

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru